## Tasg 1

# Dwy farn

Darllenwch y llythyrau eto.

1. Mae'r llythyrau'n sôn am fanteision ac anfanteision defnyddio technoleg, yn enwedig yn ystod amser hamdden. Cofnodwch y prif bwyntiau yn y grid yma.

| | **Manteision technoleg – o blaid technoleg** | **Anfanteision technoleg – yn erbyn technoleg** |
|---|---|---|
| **Llythyr 1** | | |
| **Llythyr 2** | | |

2. Gyda pha bwyntiau rydych chi'n cytuno? Pam?

3. Gyda pha bwyntiau rydych chi'n anghytuno? Pam?

Ewch i'r dudalen nesaf.

4. Ar beth mae Ceri a Lyn yn cytuno?

5. a. Mae Lyn  yn dweud,

> Mae treulio gormod o amser yn chwarae yn peryglu iechyd pobl.

Sut gallai “treulio gormod o amser yn chwarae gemau cyfrifiadur” beryglu iechyd pobl?

b. Mae hi hefyd yn dweud  y bydd bywyd pobl yn “llai lliwgar ac yn llai pleserus.”
Beth, yn ei barn hi, fydd yn achosi hyn?
Ydych chi’n cytuno â hi?
Rhowch resymau dros eich ateb.

c. Mae Ceri’n dweud:

> Mae fy mywyd i’n llawer cyfoethocach oherwydd technoleg.

Sut mae bywyd Ceri’n “llawer cyfoethocach oherwydd technoleg”?

Ydy hyn yn wir amdanoch chi?
Rhowch resymau dros eich ateb.